**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Ysgolion

**Ystafell Bwyllgor 6 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Sykes (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A M Day | L S Gibbard | D W Helliwell |
| L R Jones | M A Langstone | |

**Swyddog(ion)**
Nick Williams
Dominic Nutt
Michelle Roberts

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): M Durke, S J Gallagher, F M Gordon a/ac L J Tyler-Lloyd
Aelodau Cyfetholedig(wyr): D Anderson-Thomas

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Cllrs Mike Day and Louise Gibbard

2 **Cofnodion 18/10/17 a 16/11/17**

Derbyniodd y panel lythyr a nodiadau'r cynullydd.

3 **Plant sy'n Derbyn Gofal - Canlyniadau Addysgol**

Croesawodd y panel y Dirprwy Gydlynydd Plant sy'n Derbyn Gofal i'r cyfarfod, gan ddiolch iddo am yr atebion manwl i'r cwestiynau a anfonwyd iddo cyn y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys:

- Perfformiad addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal, gan gynnwys:
  - Cymariaethau â phlant eraill mewn ysgolion lleol a phlant PDG mewn ALl eraill.
  - Disgyblion yn cyflawni dangosyddion pwnc craidd gwahanol ar gyfnodau allweddol gwahanol.
  - Pontio'r bwlch yn neilliannau addysg PDG.
  - Plant a leolir y tu allan i'r sir
- Cynlluniau i wella cyrhaeddiad addysgol PDG

- Sut caiff disgyblion unigol eu cefnogi i gyflawni yn yr ysgol a'r tu allan iddi.
- Sut caiff plant eu cefnogi i barhau i addysg uwch a phellach
- Cynlluniau Datblygu Personol a sut cânt eu harchwilio
- Barn pobl ifanc am eu haddysg a'u dyheadau a'r gwasanaethau maent yn eu derbyn
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol a rhwystrau i gyfranogiad
- PDG a gwahardd o'r ysgol a phlant sy'n derbyn addysg mewn lleoliad heblaw'r ysgol
- Gweithio gydag eraill i wella deilliannau

Yna trafododd y panel y materion canlynol:

- Darpari hyfforddiant i ysgolion ar ymwybyddiaeth o ymlyniad yn cael ei ddatblygu yn dilyn cydnabyddiaeth o effaith materion ymlyniad ar ddysgu a'r ymennydd datblygol. Roedd y panel yn falch o weld y rôl sy'n deillio o'r hyfforddiant hwn a fydd yn cynyddu dealltwriaeth staff ym mhob ysgol yn Abertawe o'r materion a wynebir, a helpu i ddatblygu strategaethau i gefnogi dysgwyr PDG i wella cyrhaeddiad ymhellach.
- Clywodd y panel fod yr Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ceisio cyflwyno hyfforddiant Cynorthwy-ydd Cefnogi Llythrennedd Emosiynol i ysgolion, wedi'i ariannu gan grant PDG/GAD. Maent yn cydnabod y bydd hyn yn ehangu ymhellach y gefnogaeth unigol sydd ar gael i ddysgwyr mewn ysgolion ledled Abertawe.
- Clywodd Cynghorwyr am waith cyfranogiad PDG i gynyddu proffil llais y dysgwr yn Abertawe sy'n cael ei gynnwys fel astudiaeth achos arfer da yn Adroddiad Estyn 'Gwella cyrhaeddiad, cyflawniad a dyhead plant sy'n derbyn gofal'.
- Sefydlwyd cysylltiadau da â Choleg Gŵyr Abertawe ac addysg bellach. Cefnogir disgyblion PDG drwy'r trawsnewid i addysg uwch.
- Datblygiad gwefan ysgol rithiol, a fydd yr un gyntaf yng Nghymru. Bydd yn helpu i ddarparu gwybodaeth ac yn cysylltu'n agosach ag eraill, gan gynnwys er mwyn rhannu gwybodaeth.
- Nid oes unrhyw blant sy'n derbyn gofal wedi cael eu gwahardd yn barhaol am nifer o flynyddoedd. Cedwir y rhan fwyaf o'r disgyblion mwyaf diamddiffyn yn yr ysgol heb gefnogaeth. Gwaith i leihau'r risg o wahardd.

## 4 Cefnogaeth i Ddisgyblion Diamddiffyn a Gwariant y Grant Amddifadedd Disgyblion ar draws Ysgolion

Bu'r panel yn edrych ar sut gwariwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) ar draws Abertawe i gefnogi cyflawniad disgyblion diamddiffyn. Darparwyd adroddiad a daeth y Prif Swyddog Addysg i'r cyfarfod i ateb cwestiynau.

Nodwyd y canlynol:

- Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (cPYD) ac fe'i dyrennir i ysgolion gan yr awdurdod lleol bob blwyddyn ariannol. Y swm yw £1050 fesul disgybl cPYD ac mae'n seiliedig ar y cyfrifiad blynyddol o ddisgyblion.

- Darparwyd adroddiad i'r panel a oedd yn manylu'r holl wariant GAD ar gyfer 2016/17 a manylion y gwariant fesul ysgol. Gofynnir i bob ysgol gyhoeddi ei gwariant GAD ar-lein.
- Mae ysgolion wedi defnyddio'r GAD mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gyfeirio at ymchwil ddiweddar i helpu i gyfeirio'r penderfyniadau. Dyma rai o'r patrymau gwario cyffredin yn Abertawe:
  - Ymyriad ar gyfer llafaredd
  - Grwpiau targed ar gyfer ymyriad ac oriau ychwanegol
  - Ymyriadau llythrennedd a sgiliau sylfaenol
  - Dal i fyny ar lythrennedd
  - Cyfrifiaduron a dyfeisiau digidol
  - Cynlluniau unigol
  - Mynediad a chyfle cyfartal i bawb h.y. tripiau, ymweliadau a phrofiadau
  - Adborth a mentora
- Cynhwyswyd dadansoddiad o ddyraniadau yn yr adroddiad
- Amlinellwyd bod yn rhaid i ysgolion ddangos bod y grant yn cyrraedd y disgyblion iawn. Dylai effaith ymyriadau i fesur gael ei gwerthuso gan ysgolion, yn enwedig lle caiff staff eu cyflogi drwy arian grant. Mae'r panel yn cydnabod nad yw'r holl arian grant yn cael effaith ar hyn o bryd, a bod galw cynyddol i ddangos bod y GAD yn gwneud gwahaniaeth.
- Clywodd y panel fod swyddog ariannol yn gweithio gydag ymgynghorydd herio dynodedig i sicrhau bod gwariant y GAD yn briodol a bod ymgynghorwyr herio'n cael eu monitro'n flynyddol.
- Pwysleisiodd aelodau bwysigrwydd ysgolion yn defnyddio'r sylfaen dystiolaeth wrth gynllunio gwariant y dyfodol, ac mae gallu dysgu o'r hyn sy'n cael effaith wirioneddol yn bwysig. Cyfeiriwyd y panel at ddogfennaeth ddefnyddiol, yn enwedig tlodi ERW
- Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw'r UCD yn cydymffurfio ar hyn o bryd o ran ei defnydd o'r GAD. Clywodd y panel mai'r rheswm dros hyn yw'r ffaith mai yn ddiweddar iawn y maent wedi derbyn y GAD i'r disgyblion hynny sy'n mynychu'r UCD.Tan yn ddiweddar, yr ysgol wreiddiol yr oedd y disgybl yn ei mynychu oedd yn ei dderbyn. Bydd yr UCD bellach yn gallu cynllunio a defnyddio'r arian yn uniongyrchol ar gyfer ei disgyblion cPYD.

## 5 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.

Derbyniwyd y cynllun gwaith.

## 6 Eitem Er Gwybodaeth

Derbyniwyd yr eitemau er gwybodaeth gan y panel fel a ganlyn:

- Llythyr oddi wrth Grŵp Cynghorwyr ERW at Gyd-bwyllgor ERW (29 Medi 2017)
- Archwiliad ysgolion blynyddol
- Arweiniad ar leihau llwyth gwaith athrawon a phenaethiaid